# DATGANIAD LLESIANT







**Un Cyngor yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau**

Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf mewn cyfraith rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i wireddu gweledigaeth gyffredin, a fynegir yn y Ddeddf fel y saith nod llesiant cenedlaethol, sef:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

Mae dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Yn y Ddeddf caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei chynrychioli gan y pum ffordd o weithio, sef:

Hirdymor

Atal

Integreiddio

Cydweithio

Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn nodi amcanion llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn disgrifio sut y byddant yn ein helpu i gyrraedd y saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n Cynllun Corfforaethol 2018-2022, a ddiweddarwyd ar gyfer 2020-21, sy'n nodi ein hamcanion llesiant diwygiedig ac yn sefydlu'r sail resymegol a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Yn ein datganiad llesiant rydym yn nodi cwmpas pob amcan llesiant, yr hyn yr ydym yn amcanu at ei gyflawni a pham eu bod yn bwysig. Yn tanategu ein hamcanion llesiant mae ein gweledigaeth ar gyfer un Cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau.

Mae dyletswydd ar bob corff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bennu amcanion llesiant a'u hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas i'w diben. Mae'r adolygiad blynyddol yn gyfle hefyd i archwilio ymhellach sut yr ydym yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gwneud newidiadau'n unol â hynny.

Diben y ddogfen hon yw:

- egluro sut yr ydym yn pennu ein hamcanion llesiant
- nodi sut y mae ein hamcanion llesiant yn ein cynllun corfforaethol yn cyfrannu at y saith nod llesiant ar gyfer Cymru
- dangos sut y mae'r egwyddorion sy'n tanategu'r ffordd yr ydym ni'n gweithio'n gysylltiedig â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (5 ffordd o weithio)
- nodi'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ein hamcanion llesiant
- egluro sut yr ydym yn bwriadu ein llywodraethu ein hunain i gyflawni ein hamcanion

*Cyhoeddir y datganiad llesiant hwn dan adrannau 7 ac 8 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

## PENNNU EIN HAMCANION LLESIANT

Er mwyn pennu ein hamcanion llesiant fe ymgynghorom ni â thrigolion tuag at ddiwedd 2015 fel rhan o'r broses Ymgynghori ynghylch y Gyllideb. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r ymarfer nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar dri amcan.

Y rhain oedd: * Cefnogi economi lwyddiannus

* Defnyddio adnoddau'n ddoethach

* Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol

Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos cytundeb cryf â'r amcanion llesiant a ddewiswyd. Cefnogi economi lwyddiannus a defnyddio adnoddau'n ddoethach oedd yr amcanion a oedd yn cael eu cefnogi fwyaf, gydag 86 y cant o'r ymatebwyr yn dewis cytuno neu gytuno'n gryf fel ymatebion. Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol oedd yr amcan a oedd yn cael ei gefnogi leiaf; ond roedd pedwar ym mhob pump ymatebydd yn cytuno ag ef er hynny (80%). Cynhaliwyd arolwg tebyg hefyd gyda chyflogeion ac roedd y canlyniadau'n debyg i'r rhai o blith aelodau'r cyhoedd gyda thros 80% yn cytuno â phob amcan. Cafodd yr amcanion hyn eu pennu fel amcanion llesiant newydd y Cyngor yn dilyn eu cymeradwyo yn y Cyngor ym mis Mawrth 2016. Mae'r amcanion llesiant hyn wedi cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn dilyn adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fe ailymwelom ni â'n hamcanion llesiant a rhai o'n nodau ar gyfer 2020-21 fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r broses cynllunio corfforaethol. Fe arweiniodd hyn at amcanion â ffocws mwy pendant gyda chysylltiadau mwy penodol â'r 7 nod llesiant a mwy o gyfleoedd i gydweithio. Ein hamcanion llesiant diwygiedig yw:

| | | |
|---|---|---|
| **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus** | **Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy gwydn** | **Gwell defnydd o adnoddau** |

Fe wnaethom hefyd bennu meysydd blaenoriaeth newydd lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl ledled y Fwrdeistref Sirol yn awr ac yn y dyfodol.

## EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT YN ÔL AMCAN LLESIANT

Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf mewn cyfraith rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i wireddu gweledigaeth gyffredin, a fynegir yn y Ddeddf fel y saith nod llesiant

cenedlaethol.  Mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu'n sylweddol at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol. Mae ein hamcanion llesiant diwygiedig yn ymwneud â gwahanol agweddau ar gwrs bywyd gan gyfeirio adnoddau at ddeilliannau cyffredin, a chan fynd i'r afael â llesiant mewn ffordd systematig gydag ymrwymiadau i helpu i gyflymu'r cynnydd.

Mae Tabl 1 isod yn nodi sut y mae pob un o'n hamcanion llesiant yn cyfrannu at y 7 nod llesiant cenedlaethol.

| Nod Llesiant | Amcan Llesiant | | |
|---|---|---|---|
| | Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus | Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn | Gwell defnydd o adnoddau |
| Cymru lewyrchus | √ | | √ |
| Cymru gydnerth | | | √ |
| Cymru iachach | √ | √ | √ |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | √ | √ | √ |
| Cymru o gymunedau cydlynus | √ | √ | √ |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | √ | √ | |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | √ | | √ |

## EIN HEGWYDDORION A'R 5 FFORDD O WEITHIO

Yn ychwanegol at y saith nod llesiant, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn diffinio'r pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rydym wedi gwreiddio'r pum ffordd o weithio yn ein hegwyddorion sefydliadol, sef y rhai a bennwyd gennym fel rhan o'n cynllun corfforaethol 2016-20 ac y ddygwyd ymlaen i'n cynllun corfforaethol 2018-2022. Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu'r ffordd yr ydym yn gweithio ac fe'u nodir isod:

| 5 Ffordd o Weithio | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.  | Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.  | Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.  | Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.  | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.  |
|---|---|---|---|---|---|
| I gefnogi cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor. |  |  | |  |  |
| Canolbwyntio ar yr adnoddau sy'n diflannu ar gyfer cymunedau ac unigolion sydd â'r anghenion mwyaf |  | | |  |  |
| Defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i lywio'r penderfyniadau |  | |  |  |  |
| Annog a datblygu capasiti ymysg y trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol |  |  | |  |  |
| Peidio â gadael i ansicrwydd ynghylch y dyfodol gwasanaethau cyhoeddus i rwystro cydweithrediad ystyrlon a phragmatig gyda chyrff sector cyhoeddus eraill. |  | |  |  | |
| Gweithio fel un Cyngor ac atal gwahanol rannau o'r sefydliad rhag datblygu sawl proses neu ddulliau sy'n wahanol yn ddiangen |  | |  |  | |
| Trawsnewid y sefydliad a sawl gwasanaeth i ddarparu gostyngiadau cyllidebol ariannol yn ogystal â gwelliannau. |  | | |  |  |

## CYFLAWNI EIN HAMCANION LLESIANT

Mae ein hamcanion llesiant yn nodi'r hyn yr ydym yn amcanu at ei wneud (y nodau), y meysydd blaenoriaeth (i dargedu adnoddau) a'r camau (ymrwymiadau) y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Bydd y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r amcan llesiant yn ceisio sicrhau bod dulliau hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys yn cael eu cofleidio'n llawn. Ni all gynnwys pob elfen o'n gwaith, ond mae'n amcanu at enghreifftio ehangder ein hymdrechion a'n cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol. Caiff y broses o gyflawni ein hamcanion llesiant ei hategu gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau busnes cyfarwyddiaethau.

Mae'r holl amcanion hyn yr un mor bwysig â'i gilydd, maent yn aml wedi'u cydgysylltu â'i gilydd, ac nid ydynt wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth o gwbl. Er ein bod yn adolygu ein hamcanion a nodau llesiant a'n meysydd blaenoriaeth yn flynyddol i weld a oes angen gwneud rhai mân ddiwygiadau iddynt, rydym yn diweddaru ein camau (ymrwymiadau) yn flynyddol i ddangos y camau cynnydd nesaf a fydd yn cael eu cymryd. At ddibenion y ddogfen hon nid yw'r camau a hefyd ein mesurau o lwyddiant yn cael eu dangos isod ond gellir eu gweld yn y fersiwn ddiweddaraf o gynllun corfforaethol y Cyngor.

Ein hamcanion a nodau llesiant, a'n meysydd blaenoriaeth yw:


| Amcan Llesiant | Ein nodau llesiant | Ein meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r amcan llesiant hwn |
|---|---|---|
| **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus** | • I gefnogi pobl leol wrth iddynt ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo.<br>• Creu amodau ar gyfer twf a menter.<br>• Creu canol trefi a chymunedau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion. | • **Gwella canlyniadau dysgwyr**<br>I ysbrydoli a chefnogi plant, oedolion a theuluoedd i gyflawni canlyniadau gwell; gan arwain at gymunedau hapus, diogel ac iach sy'n ffynnu.<br><br>• **Twf a ffyniant**<br>Hyrwddo'r cyflyrau ar gyfer twf a ffyniant drwy gefnogi pobl a busnes I fanteisio ar y cyfleoedd i'w helpu i lyddo |

| Amcan Llesiant | Ein nodau llesiant | Ein meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r amcan llesiant hwn |
|---|---|---|
| **Helpu pobl a chymunedau i fod yn iachach ac yn fwy gwydn** | • Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gefnogaeth maent yn ei derbyn drwy ddarparu mynediad cynnar i gyngor a gwybodaeth.<br><br>• Lleihau galw drwy help cynnar wedi ei dargedu a rhaglenni ymyrraeth.<br><br>• Datblygu cymunedau mwy heini, iach a gwydn drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol. | • **Datblygu a gwella cymorth a gwasanaethau cymunedol-** Sicrhau bod cyfleoedd, cymorth a gwasanaethau o safon uchel a llyfn ar waith ar gyfer y rheiny sydd angen ein help er mwyn eu galluogi i barhau i fod yn annibynnol cyn hired ag y bo modd.<br><br>• **Meithrin cymunedau gwydn** - Gan weithio gyda'n partneriaid a'n cymunedau, byddwn yn datblygu drwy gyd-gynhyrchu dulliau amgen arloesol a newydd i wella llesiant ac i gefnogi a chynnal darpariaeth. Bydd modelau gwasanaethau newydd yn gynaliadwy ac yn llai dibynnol ar y Cyngor ac yn adlewyrchu symudiad cadarnhaol o ran cyfrifoldeb drwy rymuso sefydliadau eraill a phobl leol.<br><br>• **Gwell iechyd a llesiant** - Gwella llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc a dinasyddion bregus, er mwyn sicrhau eu bod yn medru ffynnu a chyflawni eu potensial |

| Amcan Llesiant | Ein nodau llesiant | Ein meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r amcan llesiant hwn |
|---|---|---|
| **Gwell defnydd** | • Sicrhau bod y cyngor yn gynaliadwy'n ariannol dros yr hirdymor.<br>• Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau, a'r mynediad atynt, drwy ail-ddylunio ein systemau a'n prosesau.<br>• Gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o'ch asedau naturiol a ffisegol. Datblygu'r sgiliau a'r diwylliant sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion sefydliad sy'n newid | • **Trawsnewid ystad y cyngor -** Sicrhau bod ystad y Cyngor yn cael ei ddatblygu'n briodol ac yn cael ei ddefnyddio i wella darpariaeth gwasanaeth, lleihau costau cynnal, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chynnig y lleoliad gorau posib i fodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr gan gynnwys dinasyddion.<br><br>• **Meysydd o newid corfforaethol -** Byddwn yn addasu ein ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn darparu ein hamcanion llesiant yn effeithiol. Bydd gwella arloesedd a thechnoleg, datblygu sgiliau a dulliau staff a meithrin ffyrdd amgen o weithio yn sicrhau bod gan y Cyngor y gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol.<br><br>• **Cynaliadwyedd amgylcheddol -** Rhaglenni gwaith sy'n diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy leihau ôl troed carbon y Cyngor, sicrhau llai o greu deunyddiau, gwneud mwy o ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a chyfrifoldeb gyda'n cymunedau. |

## LLYWODRAETHU A MONITRO PERFFORMIAD

Rydym yn defnyddio dull systematig o reoli perfformiad, gan ddilyn y cylch 'cynllunio-gwneud-adolygu' a gydnabyddir yn y diwydiant. Isod ceir manylion y cylch yr ydym yn ei ddilyn i sicrhau bod perfformiad yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn nodi'r fframwaith mewn mwy o fanylder a gellir ei weld yma (dolen)




Yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad i sicrhau ein bod yn gwneud digon o gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion llesiant, rydym yn monitro cynnydd ein hymrwymiadau trwy'r broses Asesu Perfformiad Corfforaethol (APC) a'r broses Graffu ac yn mesur cyfradd y gwelliant gan ddefnyddio cyfres o 'fesurau llwyddiant'. Mae APC hefyd yn gyfle i uwch arweinwyr ganfod cyfleoedd i gydweithio ac integreiddio ar draws

meysydd gwasanaeth neu gyda phartneriaid i gynyddu i'r eithaf ein cyfraniad at gyflawni ein hamcanion llesiant. Hefyd, rydym yn llunio Adroddiad Blynyddol i adrodd ar gynnydd gyda'n hamcanion llesiant a'u hadolygu a'u diwygio'n flynyddol os oes angen.

| | Cyfarfod | Diben | Yn bresennol |
|---|---|---|---|
| C1 | APC | Herio prosesau pennu targedau a pherfformiad yn Ch1, o'i gymharu â pherfformiad ar ddiwedd y flwyddyn | Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth, Aelod Cabinet Portffolio, Cyfarwyddwr Corfforaethol Her, Aelod Cabinet Her |
| C2 | APC | Adolygu perfformiad yn erbyn y targedau yn Ch2, gyda her ar berfformiad gan Gadeiryddion Craffu | Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth, Aelod Cabinet Portffolio, dau Gadeirydd Craffu |
| | Craffu | Adroddiadau gwybodaeth i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (PTaChC) i ddarparu datganiad sefyllfa yn Ch2 mewn perthynas â thargedau a chynnydd, ar gyfer herio a'u cynnwys o bosibl ar Flaenraglen Waith Pwyllgorau Craffu i'r dyfodol | Aelodau o'r Pwyllgor Craffu yn unig, dim gwahoddedigion |
| Ch3 | APC | Adolygu'r cynnydd yn Ch3 – adnabod meysydd lle mae angen camau lliniaru i helpu i gywiro unrhyw danberfformiad | Bwrdd Rheoli Corfforaethol (BRhC), Cabinet, Pob Pennaeth Gwasanaeth, a Chadeirydd Pob Pwyllgor Craffu |
| Ch4 | APC | Mae pob cyfarwyddiaeth yn rhoi sefyllfa CAG ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r uwch arweinwyr gan gynnwys y Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau craffu yn craffu arno. | BRhC, Cabinet, Pob Pennaeth Gwasanaeth, a Chadeirydd Pob Pwyllgor Craffu |
| | Craffu | Adroddiadau gwybodaeth i'r PTaChC yn dadansoddi perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn a, lle y bo ar gael, safle o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru. | Aelodau o'r Pwyllgor Craffu yn unig, dim gwahoddedigion |